



Ysgol Glan Morfa

**Polisi Cwricwlwm**  
**Ysgolion Clwstwr Bro Eder**

## Nod

Bwriad y Polisi yw esbonio beth fydd ffocws y cwricwlwm yn Yng Nghlwtwr Bro Edern. Mi fydd yr Ysgol yn cynllunio yn erbyn y 6 Maes Dysgu a Phrofiad ond y 4 diben bydd yn gyrru'r cwricwlwm ymlaen gyda'r sgiliau allweddol yn sylfaen i bob agwedd o'r cwricwlwm yn ein hysgol ni ac yn ein clwtwr.

## Fideo o'n Cwricwlwm

[Cwricwlwm Clwtwr Bro Edern](#)

## Hawliau'r Plant

- Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- Erthygl 6: Mae gennych yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.
- Erthygl 27: Eich hawl i safon dda o fywyd.
- Erthygl 28: Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.
- Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau y gallwch fod.
- Erthygl 30: Eich hawl i ddefnyddio eich iaith eich hun. Erthygl 31: Eich hawl i ymlacio a chwarae.
- Erthygl 37: Eich hawl i gael eich trin yn deg

## Gweledigaeth



Bwriad Cwricwlwm Clwtwr Bro Edern yw diwallu anghenion ein disgyblion, sy'n dod o gefndiroedd amrywiol mewn dalgylch gymysg yn Nwyrain Caerdydd, prifddinas Cymru. Mae'r Pedwar Diben wrth galon Cwricwlwm Clwtwr Bro Edern. Er mai dibenion hir dymor yw'r rhain, maent angen sylw dyddiol er mwyn cael eu gwireddu.

Wrth i ni arwain disgyblion sy'n falch o'u treftadaeth ddinesig yn ein prifddinas, mae Cymreictod, yr iaith Gymraeg a'i datblygiad hanesyddol yn greiddiol i'n gweledigaeth. Mae plethu meysydd ein cwricwlwm yn bwrpasol yn sicrhau bod disgyblion Clwstwr Bro Edern yn elwa o ehangder y cwricwlwm tra'n canolbwyntio ar yr Hyn sy'n Bwysig.

Mae'r bobl a astudir yng Nghwricwlwm Clwstwr Bro Edern yn drawsdoriaid amrywiol ac yn cynnwys modelau rôl sy'n ysbrydoliaeth i'r holl ystod o ddisgyblion yn y clwstwr. Wrth gael eu magu mewn dinas aml-ddiwylliannol ble mae cyd-fyw a chyd-dynnu'n rhan allweddol o fywyd beunyddiol, mae ennyn goddefgarwch a pharch yn ein disgyblion yn hanfodol.

Mae annog uchelgais yn ein disgyblion yn golygu datblygu sgiliau a strategaethau cadarn i'w galluogi i wynebu llwyddiant a methiant. Mae dyfalbarhad a gwydnwch yn allweddol fel rhan o'r feddylfryd twf a fegir yn ein disgyblion. Gwybodaeth gadarn sy'n gosod y sylfaen i ddisgyblion y clwstwr elwa o sgiliau a phrofiadau y gellir eu trosglwyddo i amryw o gyd-destunau heddiw, ac yn y dyfodol.

Mae gan ysgolion y clwstwr y gallu i drawsnewid bywydau ein disgyblion. Dyma ble maen nhw'n ennill yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau a fydd yn cyfoethogi gweddill eu bywydau. Mae'r gwreiddiau ac adenydd yn logo'r Clwstwr yn crisialu hyn.

#### Diben y cwricwlwm

- Darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n meithrin dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.
- Darparu profiadau, gwybodaeth a sgiliau sy'n hyrwyddo dysgwyr fel cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a Gwaith.
- Darparu ystod o gyfleoedd y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth sy'n cyfoethogi'r dysgu ac yn annog dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.
- Cwrdd ag anghenion bob dysgwr er mwyn annog unigolion iach, hyderus a gwydn sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
- Magu ddinasyddion egwyddorol sy'n ymfalchio yn eu cynefin, Cymru a'r iaith Gymraeg
- Mae cwricwlwm Clwstwr Bro Edern yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu agwedd cadarnhaol ac ymrwymiad at ddysgu
- Y gallu i ganfod, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn a thrafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n berthnasol i fywyd a chyflogaeth mewn byd sy'n esblygu'n barhaus.
- sgiliau trawsgwricwlaidd; llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol

- sgiliau cyfannol megis creadigrwydd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol a chynllunio a threfnu
- cydnabyddiaeth o'u cryfderau a'u doniau ynghyd â gwerthfawrogi llwyddiannau eraill
- Ymdeimlad o gyfrifoldeb dros eu cynnydd ac adnabod agweddau i'w gwella y gallu i weithio'n annibynnol a chyd-weithio'n hyderus fel aelod o dim hunan hyder.
- hunan werth a'r dealltwriaeth am hawliau dynol ac amrywiaeth.

### Gweithredu'r Cwricwlwm

Mae gennym cynlluniau gwaith sy'n seiliedig ar y cwricwlwm clwstwr a gofynnir bod pob aelod o staff yn dilyn y cynllun gwaith hwnnw gyda'r ysgol yn monitro darpariaeth drwy'r prosesau hunan arfarnu. Mae'r cynlluniau gwaith wedi eu strwythuro er mwyn amlygu'r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd angen eu datblygu dros amser.

Sicrheir fod yna gydbwysedd rhwng arbenigedd a phrofiad athrawon ar draws yr amrediad oed a gallu a fod pob athro yn gymwys i ddysgu trwy gyfwng y Gymraeg. Mae'r athrawon yn cyd-gynllunio er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad effeithiol ar draws y camau cynnydd. Lle'n berthnasol cynllunnir tasgau annibynnol priodol sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr meithrin y sgiliau a gyflwynir ar lawr y dosbarth ynghyd â cyfoethogi eu dealltwriaeth.

Er mwyn cwmpasu pob dysgwr, beth bynnag yw'r oedran, cefndir, anghenion neu allu, mae'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth i gynnydd o safbwynt holistaidd drwy ddefnyddio egwyddorion datblygiad plant wrth gynllunio, dylunio a gweithredu ein cwricwlwm. Bodlonir gofynion y Ddeddf Cyfle Cyfartal er mwyn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn mynediad lawn i'r cwricwlwm.

### Pedwar diben y Cwricwlwm

Mae rhaid i gwricwlwm Ysgol Glan Morfa a Chlwstwr Bro Edern helpu plant a phobl ifanc i gyflawni'r 4 prif ddiben.

Cynrychiolir y pedwar diben yn Ysgol Glan Morfa gan gyfres o ddreigiau lliwgar sydd wedi cael eu dylunio gan ein disgyblion.

# YSGOL GLAN MORFA







## Cynnwys Cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm yn un ymatebol sy'n grymuso dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r agweddau sydd eu hangen i ddysgu'n llwyddiannus a gwireddu'r pedwar diben. Drwy'r cwricwlwm magwn diddordeb ein dysgwyr yn eu haddysg, a byddan nhw'n datblygu'n unigolion mwy galluog ac annibynnol, yn barod i gyfrannu yn y byd o'u cwmpas. Byddan nhw'n iachach ac yn fwy hyderus i ryngweithio ag ystod amrywiol o bobl, lleoedd a phrofiadau. Mae hyn yn baratoad da ar gyfer cam nesaf eu taith ddysgu. Dros gyfnod, ar eu lefel eu hunain ac yn eu hamser eu hunain, mae'r dysgwyr yn meithrin perthynas ag eraill, yn datblygu sgiliau bywyd ac yn magu diddordebau personol a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu potensial.

Mae'r cwricwlwm yn cwmpasu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad; Celfyddydau Mynegiannol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Iechyd a Lles, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd, Y Dyniaethau. Mae'r chwe Maes yn dwyn disgyblaethau cyfarwydd ynghyd, ac yn annog cysylltiadau ystyrlon a chryf ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i fagu cysylltiadau ar draws eu dysgu ac i gyfuno gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgilia

Mae'r 4 prif ddiben yn mynd i helpu plant a phobl ifanc i fod yn:

	<p>1. Dysgwyr uchelgeisiol a galluog: Golyga hyn eu bod nhw'n credu ynddyn nhw eu hunain a beth maen nhw'n gallu ei wneud. Maen nhw eisiau dysgu a gwneud yn well. Mae ganddyn nhw'r sgiliau i ddysgu.</p>
	<p>2. Mentrus a chreadigol: Golyga hyn eu bod nhw'n gallu bod yn greadigol a meddwl am syniadau newydd. Maen nhw'n gallu datrys problemau. Maen nhw'n gallu cymhwyso hyn yn eu gwaith.</p>
	<p>3. Dinasyddion egwyddorol a gwybodus: Golyga hyn eu bod nhw'n deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Maen nhw'n cymryd rhan yn eu cymuned. Maen nhw'n edrych ar ôl y byd.</p>
	<p>4. Iach a hyderus: Mae hyn yn meddwl bod ganddyn nhw feddwl a chorff iach. Maen nhw'n teimlo'n dda amanyh nhw eu hunain ac am beth maen nhw'n gredu.</p>

## Egwyddorion Cynllunio'r Cwricwlwm yn Nghwricwlwm Bro Edern

Mae ein Cwricwlwm;

- Yn ddilys - Wedi gwreiddio yng ngwerthoedd a diwylliant Cymru.
- Wedi ei seilio ar dystiolaeth - yn gwneud defnydd o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt+
- Yn ymatebol - yn berthnasol i anghenion heddiw
- Yn gynhwysol - yn hawdd i bawb ei ddeall gan gwmpasu hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael addysg o ansawdd uchel
- Yn uchelgeisiol - yn ymglyffori disgwyliaadau mawr heb osod terfynau artiffisial
- Yn rymusol - galluogi pobl ifanc i wynebu heriau'n hyderus
- Yn unedig - yn caniatáu parhad a dilyniant (cam i gam)
- Yn ddiddorol - yn hybu mwynhad o ddysgu
- Wedi seilio ar ysbidiaredd - yn ennyn hyder ym mhawb gan gymell perchnogaeth briodol
- Yn hawdd ei drin - yn cydnabod goblygiadau o ran cael trefniadau asesu ac atebolrwydd priodol

### 6 Maes Dysgu a Phrofiad:

Yn Ysgol Glan Morfa rydym yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn amryfal brofiadau o fewn holl meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm.

Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad ydy:

#### 1. Y Celfyddydau Mynegiannol

Yn Ysgol Glan Morfa bydd cyfle i blant a phobl ifanc archwilio'r celfyddydau a dysgu sut i fwynhau a meddwl am gelf pobl eraill. Fe ddylai pob disgybl gael cyfle hefyd i fod yn greadigol. Maen nhw'n gallu dysgu'r pethau yma drwy gymysgedd o wahanol wersi fel:

- Celf
- Dawns
- Ffilm
- Drama
- Cerddoriaeth
- Cyfryngau digidol (Golyga cyfryngau digidol unrhyw waith celf rydych chi'n ei greu drwy dechnoleg, er enghraifft, fideo, recordio sain a gwefannau.

#### 2. Iechyd a Llesiant

Bydd Ysgol Glan Morfa yn dysgu plant a phobl ifanc sut i edrych ar ôl eu iechyd. Golyga hyn:

- sicrhau bod ein corff yn iach.
- cadw ein meddwl yn iach.
- sicrhau perthnasoedd iach gyda phobl.
- y gallu i wneud penderfyniadau bywyd da.

Bydd y cwricwlwm hwn yn cynnwys gweithgareddau megis coginio, chwaraeon a gwersi am lesiant.

Diffinir llesiant fel unrhyw beth i'w wneud gyda'ch iechyd a'ch hapusrwydd, yn Ysgol Glan Morfa defnyddir gwersi PenLles, amseroedd cylch, hyrwyddo wythnosau iechyd meddwl cenedlaethol a gwasanaethau dosbarth er mwyn addysgu a hybu llesiant.

### 3. Y Dyniaethau

Bydd Ysgol Glan Morfa yn dysgu plant a phobl ifanc i feddwl am y byd er mwyn eu helpu i'w ddeall yn well.

Gall hyn fod drwy bynciau fel:

- Hanes
- Daearyddiaeth
- Crefyddau, gwerthoedd a moeseg
- Busnes
- Astudiaethau Cymdeithasol



#### 4. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd Ysgol Glan Morfa yn dysgu plant a phobl ifanc i ddeall a defnyddio gwahanol ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg a ieithoedd modern eraill. Ar hyn o bryd, yn Ysgol Glan Morfa mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn derbyn sesiwn Ffrangeg wythnosol gan athrawon Ysgol Bro Edern. Er, rydym yn cymryd pob cyfle i addysgu amryfal ieithoedd gan fanteiso ar gyfleoedd ac ar brofiadau ieithyddol unigryw ein disgyblion a'u teuluoedd.

Ysgol dynodedig Gymraeg yw Ysgol Glan Morfa felly wrth wraidd gweledigaeth yr ysgol mae'r iaith Gymraeg. Rydym yn ei hyrwyddo yn mhob elfen o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion Ysgol Glan Morfa yn gadael yr ysgol yn ddisgyblion dwyieithog hyderus a balch a chyda gafael dda ar drydedd iaith, gyda rhai yn amlieithog.

Pan yn cyfeirio at Lythrennedd rydym yn ystyried medrau siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu y disgyblion; medrau sydd yn eu galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas ni.

Bydd Ysgol Glan Morfa hefyd yn dysgu ein disgyblion i ddeall a gwerthfawrogi llenyddiaeth a chreu eu llenyddiaeth eu hunain. Wrth ystyried llenyddiaeth, rhown gyfle i'r disgyblion brofi a mwynhau llyfrau, cerddi a ffilmiau.

#### 5. Mathemateg a Rhifedd

Bydd Ysgol Glan Morfa yn dysgu plant a phobl ifanc i ddeall a defnyddio rhifau. Mae defnyddio rhifau mewn bywyd bob dydd yn cael ei alw yn rhifedd. Fe fydd dysgu am fathemateg a rhifedd yn golygu:

- deall sut mae rhifau'n gweithio.
- deall sut mae symbolau'n gallu cael eu defnyddio a beth maen nhw'n feddwl. Symbol ydy arwydd sydd yn gallu dweud wrthy ch chi beth i'w wneud. Er enghraifft, mae'r arwydd plws yn meddwl eich bod yn adio dau rif gyda'i gilydd. Fel  $2 + 2$ . Weithau mae symbolau hefyd yn cael eu defnyddio yn lle rhifau, er enghraifft  $a - b$ .
- deall sut i fesur pethau a gweithio gyda gwahanol siapiau.
- deall sut i gasglu gwybodaeth gan ddefnyddio'r wybodaeth yma i wneud penderfyniadau.

## 6. Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bydd Ysgol Glan Morfa yn dysgu plant a phobl ifanc i ddeall natur a phethau byw. Rhaid iddyn nhw ddysgu am y grymoedd o'n cwmpas. Grymoedd ydy pethau dydych chi ddim yn gallu eu gweld sydd yn effeithio arnoch chi, fel disgyrchiant.

Bydd Ysgol Glan Morfa hefyd yn dysgu plant a phobl ifanc am sut mae technoleg yn gweithio i ddatrys problemau. Mae hyn yn gallu bod drwy bynciau fel bioleg, cemeg, ffiseg a gwyddoniaeth cyfrifiadurol.

### Themâu Trawsgwricwlaidd neu Sgiliau ar gyfer y cwricwlwm cyfan:

Yn Ysgol Glan Morfa, bydd yr athrawon yn cynllunio er mwyn sicrhau bod pob pwnc yn datblygu'r sgiliau traws-gwricwlaidd isod: y

- Sgiliau llythrennedd – gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu.
- Sgiliau rhifedd – deall a defnyddio rhifau.
- Sgiliau digidol – gallu dysgu a deall technoleg. Golyga hyn y gallu i ddefnyddio dyfeisiadau digidol fel cyfrifiaduron, ffonau deallus a thabledi.

Bydd y sgiliau uchod yn allweddol at lwyddiant pob blentyn er mwyn iddynt gael y mynediad gorau posib i'r Cwricwlwm i Gymru.

### Sgiliau ehangach i'w hystyried wrth gynllunio:

**Meddwl yn feirniadol a datrys problemau** - mabwysiadu prosesau rhesymegol a beirniadol i ddadansoddi a deall sefyllfaoedd

**Cynllunio a Threfnu** - sicrhau atebion a gweithredu syniadau

**Creadigrwydd ac Arloesedd** - archwilio syniadau a mynegi barn

**Effeithiolrwydd Personol** - ymddwyn mewn modd effeithiol a phriodol

### Sut bydd modd cyflawni'r uchod?

Yn gyntaf, bydd yr athrawon yn cynllunio'n ofalus yn erbyn themâu sydd yn galluogi'r ysgol i gyrraedd cydbwysedd o ran y chwe maes dysgu a phrofiad. Yn Ysgol Glan Morfa, rhoddir pwyslais ar ddatblygu a chyfoethogi medrau laith a Mathemateg y disgyblion er mwyn iddyn nhw gymhwyso y medrau hyn yn hyderus yn draws-gwricwlaidd yn y chwe maes dysgu a phrofiad. Bydd disgwyl i lechyd a llesiant ymddangos yn glir yn y cynllunio ac wrth ystyried Dyniaethau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Chelfyddydau Mynegiannol bydd hi'n bosib i ddewis thema gyda thuedd tuag at faes dysgu a phrofiad arbennig e.e. Dyniaethau gan astudio'r ardal leol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg gan ystyried dyfeisiadau ayyb. Bydd llais y disgybl yn allweddol yn y broses gynllunio.

### Llais y Disgybl:

Wrth gynllunio themâu trawsgwricwlaidd neu dasgau cyfoethog, bydd mewnbwn y disgyblion wrth wraidd y cynllunio a'r addysgu a dysgu. O ganlyniad, ein gobaith yn Ysgol Glan Morfa yw y bydd y disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'r gweithgareddau a'u dysgu eu hunain. Defnyddir sesiynau ar ddiwedd bob wythnos yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn cywain syniadau y disgyblion ac ar ddechrau bob thema yng nghyfnod allweddol 2, ceir sesiwn drochi lle fo'r disgyblion yn cael rhannu eu syniadau am y thema. Yn gyson gydol y thema, mae'r athrawon yn ymateb i chwilfrydedd a chwestiynau y disgyblion wrth lywio'r gweithgareddau.

### Addysgeg:

Wrth wraidd addysgeg yr ysgol mae'r 12 egwyddor Addysgu. Gweler y Polisi Addysgu a Dysgu am fwy o wybodaeth.

 <b>Ein haddysgeg yw i ddarparu profiadau perthnasol ac ysgogol i feithrin dysgwyr annibynnol, mentrus, gydol oes.</b> 			
<b>1. Cwricwlwm</b> Cybwyseidd Ystad o arddulliau addysgu a dysgu Cyflaeodd dysgu cyfoethog	<b>2. Meddyffryd a sut fo ymdrech yn arwain at ddisgwyliadau uchel</b> Heno i anelu'n uchel Dysgu a gangymredau (Meddyffryd Tuf) Dysgwyr gydol oes	<b>3. Cymysgedd o ddulliau</b> Ystad arog a broffedau addysgu a dysgu Nodau a MP3 clip Hybu dysgu annibynnol a fewn cyd-destunau anghyfarwydd	<b>4. Dwysdu Dealltwriaeth</b> Cymhysio sgiliau yn greadigol a beirnodol Amgylcheddau cyfoethog a symblyd i ddiatryna Problemau Dysgwyr cydweithredol
<b>5. Adeiladu ar wybodaeth blaenorol ac yn emyn diddirdeb</b> Adelladol Diddorol Gwahaniaethu Lias y diwyblyd	<b>6. Cyd-destunau Dysgu ystyrlon a dilys</b> Perthnasol Pweraol Ymwelodau cyfoethog Ambynaeth	<b>7. Aseu ar gyfer dysgu</b> Abarth rheolaidd a phweraol Uchelgeiriol - heno a chomau nesaf Aseu cyfoedon ac hunan aseu	<b>8. Gwneud Cysylltiadau</b> Cysylltadau trawsgeriadaidd Datrys problemau anghyfarwyddol a fewn cyd-destunau go iwan Cynllunio beirnodau - ymchellio
<b>9. Cyfrifoldebau Traesgwiriolaidd</b> Llythrennedd, Rluffed a Chymhwysedd Digidol - treiddio'n orochel a dilys Cymhysio / Ffietu	<b>10. Dysgu i Ddysgu</b> Penrhogath - Bas y diwyblyd Metawyblyddiaeth Cymryd cyfrifoldeb a myfyrio Meddyffryd Tuf Aseu ar gyfer Dysgu	<b>11. Perthnasedd Cadarnhaol</b> Lias Enghothi Parch Ymateb ac oddasu i anghenion	<b>12. Cydweithrediad</b> Dysgu gyda chyfoedon Hwylawyr Dysgu Anwan y dysgu - diwyblyd

### Datblygiad Personol

Yn ogystal â datblygiad academaidd yr unigolyn mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo datblygiad personol holistaidd a chyflawn ac yn cydnabod fframweithiau mandadol ychwanegol.

### Diwylliant Cymreig a'r Iaith Gymraeg:

Fel ysgol cyfrwng Cymraeg addysgir rhan helaeth o'r cwricwlwm drwy'r Gymraeg sydd yn annog dinasyddion amlieithog sy'n datblygu sgiliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd effeithiol er mwyn mynegi eu hunain, datblygu cysylltiadau cymdeithasol cryf ac er mwyn dysgu'r fwy cyffredinol. Drwy gynnig profiadau o ddiwyllionau Cymreig a byd-eang mae dysgwyr yn cyfle i feithrin hunaniaeth personol a gwerthfawrogiad o'r gymdeithas aml-ddiwyllionol fodern. Mae'r ymdeimlad cryf o berthyn o gymorth i greu teimladau positif o gysylltiad rhwng ein dysgwyr, cymuned yr ysgol, eu hardal leol, Cymru ac i'r byd ehangach.

### Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

Bydd y ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn wrthrychol ac yn gynhwysol gan adlewyrchu amrywiaeth a meithrin ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a pharch tuag at amryw o safbwyntiau a gwerthoedd. Bydd cyfleoedd trwy Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i bob dysgwr ymgysylltu â gwahanol argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol ein hardal ni ac yng Nghymru yn ogystal â'r byd ehangach. Yn unol â deddf y Cwricwlwm i Gymru nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn yn ôl o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

### Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Defnyddir Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Cwricwlwm i Gymru (Ionawr 2022) wrth

gynllunio'r rhaglen addysg cydberthynas a rhywioldeb ar draws Clwstwr Bro Edern. Mae'r Cod hwn yn cynnwys gofynion gorfodol, ac mae'r sail gyfreithiol ar gyfer y gofynion hyn i'w gweld yn y crynodeb deddfwriaethol yn y canllawiau fframwaith hyn ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob dysgwr gael yr addysg hon a nid oes hawl i dynnu plentyn allan o wersi addysg cydberthynas a rhywioldeb o Fedi 2022. Y nod yw cynorthwyo disgyblion i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u dealltwriaeth a'u galluogi i wneud penderfyniadau cyfrifol ynglŷn â'u perthnasoedd, emosiynau a iechyd a lles rhywiol. Bydd yr addysg cydberthynas a rhywioldeb yn ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys gwybodaeth ac aeddfedrwydd y dysgwr, ei ddatblygiad ffisiolegol ac emosiynol yn ogystal ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

### [Addysg gyrfaoedd a phrofiadau gysylltiedig â Gwaith](#)

Mae llywio ymwybyddiaeth dysgwyr o bwy ydyw a phwy y gall dyfu i fod yn sail i ethos ein hysgol. Mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio i godi dyheadau pob dysgwr. Wrth hyrwyddo dysgwyr uchelgeisiol, galluog darperir amrywiaeth o brofiadau byd gwaith mewn partneriaeth ag ystod eang o bobl a sefydliadau.

### [Hawliau a Chyfle Cyfartal](#)

Mae'r cwricwlwm yn rhoi'r cyfle i ddysgwr dysgu am hawliau dynol gan annog dysgwyr i ymholi, dadansoddi, ffurfio dadleuon, gwneud penderfyniadau, cydweithredu, gwerthuso a datblygu ymddygiadau a gaiff eu llywio gan werthoedd. Nod ein cwricwlwm yw cynnig cyfle cyfartal i bob unigolyn ymhob agwedd ar fywyd yr ysgol heb wahaniaethu ar sail gallu, rhywioldeb, hil, anabledd, na chrefydd. I'r perwyl hwn bydd gan bob dysgwr yr hawl i gael mynediad i ystod eang a chytbwys o weithgareddau addysgiadol, heb wahaniaethu. Bydd yr ysgol yn meithrin datblygiad yr unigolyn er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial heb unrhyw fath o ystrydebu.

### [Cadw y Polisi yn Gyfoes:](#)

Polisi sydd yn diwygio'n gyson yw'r polisi hwn, mae'n hanfodol caniatáu addasu a newid er mwyn gwir fanteisio ar hyblygrwydd y Cwricwlwm newydd.

Mi fydd gwaith ymchwil yr ysgol a thu hwnt yn ychwanegu at brofiadau athrawon a disgyblion.

Rydym yn cymell ein hathrawon i gymryd risg er mwyn cyffroi a diwygio'r addysgeg. Er hyn, wrth gymryd risg mae disgwyliadau sylfaenol y cwricwlwm yn parhau yn uchel.

Wrth lawnsio platfform dysgu ar-lein Ysgol Glan Morfa yn nhymor y Gwanwyn 2020, mae hyn wedi agor y drws i'r ysgol i gyfoethogi arferion addysgu, Cymsgedd o Ddulliau (Blended Learning). Bydd yr arferion hyn yn parhau o fewn gweithdrefnau cwricwlaidd yr ysgol.

Llofnod y Cadeirydd: **A Regan**

Llofnod Pennaeth: *M R Tomos*

Dyddiad: 10.9.24

Dyddiad yr adolygiad: 10.9.25

